Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct

# Polisi addasiadau rhesymol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau

Mehefin 2024

# Polisi addasiadau rhesymol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau

## Ein hymrwymiad a'n dull o ddarparu addasiadau rhesymol i'n defnyddwyr gwasanaethau

### Diben

Mae gan IOPC ddyletswydd gyfreithiol o dan *Ddeddf Cydraddoldeb 2010* i sicrhau bod y gwasanaethau rydyn ni'n eu cynnig yn gynhwysol ac yn hygyrch. Rydyn ni'n cydnabod bod yn rhaid i ni gymryd camau rhesymol i sicrhau y gall pob defnyddiwr gwasanaethau, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig, d defnyddio ein gwasanaethau.

Diben y polisi hwn yw nodi'r broses ar gyfer gwneud addasiadau rhesymol, a chael gwared ar, neu leihau effaith unrhyw rwystrau a allai greu anfantais i bobl ag anableddau a/neu anghenion ychwanegol.

Nid yw'r polisi hwn yn ceisio esbonio sut y byddwn yn mynd i'r afael â phob sefyllfa. Y bwriad yw cadarnhau ein hymrwymiad i wella hygyrchedd i bawb y byddwn yn dod i gysylltiad â nhw. Mae hefyd yn nodi'r ffactorau rydyn ni'n eu hystyried wrth ymdrin â cheisiadau am addasiadau rhesymol. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl ddefnyddwyr gwasanaethau IOPC ac mae'n cyd-fynd â'n Safonau Gwasanaeth.

### Beth yw addasiad rhesymol?

Mae addasiad rhesymol yn cynnwys gwneud newid i'r ffordd rydyn ni'n gwneud pethau fel arfer er mwyn sicrhau bod IOPC yn hygyrch i'n holl ddefnyddwyr gwasanaethau. Er enghraifft, gallai hyn olygu darparu gwybodaeth mewn fformat gwahanol, neu gyfathrebu â defnyddiwr gwasanaethau trwy ei gynrychiolydd neu eiriolwr.

Ni fyddwn yn gwneud rhagdybiaethau ynghylch a oes angen unrhyw addasiadau ar berson anabl neu beth ddylai'r addasiadau hynny fod. Byddwn yn trafod y gofynion gyda'r person dan sylw ac yn ceisio dod i gytundeb ar yr hyn sy'n rhesymol o dan yr amgylchiadau.

### Gofyn am addasiadau rhesymol

Bydd IOPC yn rhoi gwybod i bobl y gallwn ddarparu addasiadau rhesymol trwy:

- gyhoeddi'r polisi hwn a'n Safonau Gwasanaeth ar ein gwefan

- lle bo hynny'n briodol, gofyn i'n defnyddwyr gwasanaethau a oes ganddyn nhw anabledd ac a oes angen unrhyw addasiadau arnyn nhw yn ystod ein cyswllt â nhw

- darparu dogfennau mewn fformat arall ar gais, gan weithio gyda grwpiau cynrychioliadol allweddol ac eraill i godi ymwybyddiaeth o'r polisi hwn a chael dealltwriaeth well o'r hyn a allai fod o gymorth

- cynnwys nodyn clir ar gofnodion perthnasol sy'n tynnu sylw cydweithwyr at addasiadau rhesymol y cytunwyd arnyn nhw.

## Y mathau o addasiadau rhesymol y gallwn eu cynnig

Byddwn yn ystyried pob cais am addasiadau rhesymol yn unigol. Byddwn yn gallu gwneud rhai addasiadau ar unwaith, tra bydd angen ystyried a threfnu eraill o bosibl.

Byddwn bob amser yn cytuno ar yr addasiadau gyda'r unigolyn dan sylw er mwyn osgoi gwneud rhagdybiaethau anghywir am anghenion person. Mae rhai enghreifftiau o addasiadau rhesymol syml y gall cydweithwyr eu gwneud yn cynnwys:

- darparu dogfennau mewn ffont mwy o faint

- darparu dogfennau ar bapur lliw neu gyda chyferbynnedd lliw penodol, a all helpu pobl â chyflyrau fel dyslecsia

- caniatáu mwy o amser i berson sydd ag anabledd dysgu neu sy'n profi iechyd meddwl gwael i ddarparu rhagor o wybodaeth - ac eithrio lle mae dyddiad cau cyfreithiol nad oes gennym unrhyw bŵer i'w newid

- defnyddio e-bost neu'r ffôn yn hytrach na llythyrau copi caled lle bo hynny'n briodol

- cynnig mwy o amser i helpu rhywun i ddeall ein prosesau a'n gweithdrefnau

- defnyddio iaith glir, blaen sy'n addas i'r unigolyn dan sylw, ac osgoi jargon

Gallwn ddarparu rhai trefniadau eraill yn cynnwys:

- cyfieithu dogfennau neu ohebiaeth i Braille

- cyfathrebu â phobl trwy eu cynrychiolydd neu eiriolwr, os ydyn nhw'n gofyn am hynny a'u bod wedi'u cymeradwyo ganddyn nhw, fel y nodir yn *Neddf Galluedd Meddyliol 2005*

- helpu rhywun sy'n profi iechyd meddwl gwael i ddeall a rheoli'r camau rydyn ni'n eu cymryd trwy drefnu un pwynt cyswllt o fewn IOPC

- darparu mynediad at wasanaeth 'Hawdd ei ddeall' i'r rhai sydd ag anabledd dysgu

Efallai y bydd angen ystyried rhai ceisiadau yn fanylach a byddwn yn trafod y rhain gyda'r defnyddiwr gwasanaethau dan sylw. Os oes posibilrwydd y gall gwneud penderfyniad neu gyflwyno addasiad rhesymol gymryd amser, byddwn yn rhoi gwybod i'r unigolyn dan sylw.

## Cwynion am ein gwasanaeth

Mae IOPC wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o safon, gan weithio gyda phob defnyddiwr gwasanaethau mewn ffordd sy'n deg ac yn rhydd o wahaniaethu.

Os ydych chi'n anfodlon â'r trefniadau rydyn ni wedi'u gwneud ar gyfer darparu addasiadau rhesymol, gallwch wneud cwyn. Byddwn yn ymateb yn unol â'n polisi cwynion ac adborth.

Mae rhagor o wybodaeth am ein Safonau Gwasanaeth ar ein gwefan.

Cyhoeddwyd Mehefin 2024

**© IOPC 2024**

OGL This is licensed under the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated.

This does not include material on this site as belonging to third parties.
Authorisation to use such material must be obtained from the copyright holders concerned.

I ddysgu mwy am ein gwaith neu am gopi o'r adroddiad hwn mewn fformat arall, gallwch gysylltu â ni mewn sawl ffordd:

**Independent Office for Police Conduct (IOPC)**
**10 South Colonnade Canary Wharf Llundain E14 4PU**
Ffôn: 0300 020 0096
E-bost: enquiries@policeconduct.gov.uk
Gwefan: **www.policeconduct.gov.uk**
Testun: **18001 020 8104 1220**

Rydyn ni'n croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg